

ADRODDIAD RHIF 70029917-EIASCR

# GORCHYMYN DATBLYGU LLEOL CANOL TREF LLANELLI

ADRODDIAD SGRINIO ASESAD O'R EFFAITH  
AMGYLCHEDDOL

MEDI 2017

# GORCHYMYN DATBLYGU LLEOL CANOL TREF LLANELLI

ADRODDIAD SGRINIO ASESIAD O'R  
EFFAITH AMGYLCHEDDOL

**Cyngor Sir Caerfyrddin**

## **Terfynol (f3)**

Rhif y prosiect: 70029917  
Dyddiad: Medi 2017

—

### **WSP**

1 Capital Quarter  
Stryd Tyndall  
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: +44 (0) 292 076 9200  
**[www.wsp.com](http://www.wsp.com)**



# RHEOLI ANSAWDD

CYHOEDDIAD/DI WYGIAD	CYHOEDDIAD CYNTAF	DIWYGIAD 1	DIWYGIAD 2	DIWYGIAD 3
Sylwadau		I'w Gyhoeddi	Fersiwn 3	
Dyddiad		18 Medi 2017	27 Medi 2017	
Paratowyd gan		Victoria Wilson	Victoria Wilson	
Llofnod				
Gwiriwyd gan		Gavin Lewis	Gavin Lewis	
Llofnod				
Awdurdodwyd gan		Marc Thomas	Marc Thomas	
Llofnod				
Rhif y prosiect		70029917	70029917	
Rhif yr adroddiad		70029917-EIASCR	70029917-EIASCR	
Cyfeirnod ffeil		<a href="\\uk.wspgroup.com\central\data\Projects\70029917 - Llanelli TC Masterplan\C Documents\Reports\LDO EIA Screening Opinion\Llanelli TC LDO EIA Screening for issue.docx">\\uk.wspgroup.com\central\data\Projects\70029917 - Llanelli TC Masterplan\C Documents\Reports\LDO EIA Screening Opinion\Llanelli TC LDO EIA Screening for issue.docx</a>	<a href="\\uk.wspgroup.com\central\data\Projects\70029917 - Llanelli TC Masterplan\C Documents\Reports\LDO EIA Screening Request\Llanelli TC LDO EIA Screening v3.docx">\\uk.wspgroup.com\central\data\Projects\70029917 - Llanelli TC Masterplan\C Documents\Reports\LDO EIA Screening Request\Llanelli TC LDO EIA Screening v3.docx</a>	

# TABL CYNNWYS

1	CYFLWYNIAD .....	1
2	DULL A METHODOLEG .....	5
3	NODWEDDION Y CYNLLUN ARFAETHEDIG.....	9
4	LLEOLIAD Y CYNLLUN ARFAETHEDIG .....	11
5	NODWEDDION EFFEITHIAU TEBYGOL .....	17
6	CRYNODEB.....	23

---

## TABLAU

TABL 2-1 DISGRIFIAD O FESURAU LLINIARU A YSTYRIWYD .....	7
TABL 4-1 ACA O FEWN 2 GILOMEDR .....	12
TABL 4-2 AGA O FEWN 2 GILOMEDR .....	12
TABL 4-3 RAMSAR O FEWN 2 GILOMEDR .....	13
TABL 4-4 SODDGA O FEWN 2 GILOMEDR .....	13
TABL 4-5 ADEILADAU RHESTREDIG O FEWN FFIN Y GORCHYMYN DATBLYGU LLEOL .....	14
TABL 5-1 GWERTHUSIAD O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL DEBYGOL .....	17
TABL 5-2 DATBLYGIAD PERTHNASOL YR YMRWYMWYD IDDO .....	20

---

## ATODIADAU

**A T O D I A D A CYNLLUN LLEOLIAD Y SAFLE**

# 1 CYFLWYNIAD

## 1.1 DIBEN YR ADRODDIAD HWN

- 1.1.1 Mae WSP wedi paratoi'r Adroddiad Sgrinio Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol hwn ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin i gefnogi cais am Farn Sgrinio gan Adran Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin, o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) Cymru) 2017, y cyfeirir atynt fel 'Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol 2017' o hyn ymlaen.
- 1.1.2 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn bwriadu cyflwyno Gorchymyn Datblygu Lleol ar gyfer Canol Tref Llanelli i hwyluso adfywio, gan gynyddu lefelau meddiannaeth a nifer yr ymwelwyr trwy roi caniatâd cynllunio amodol ar gyfer unedau llawr daear ac uwch ar gyfer defnyddiau penodedig. Fodd bynnag, dylid nodi nad oes unrhyw ganllawiau presennol ar gyfer asesu effeithiau amgylcheddol Gorchymynion Datblygu Lleol arfaethedig; at ddibenion yr adroddiad hwn, cymerwyd cyfarwyddyd o Gylchlythyr 003/2012 Llywodraeth Cymru<sup>1</sup> a Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol 2017, y mae'r olaf yn berthnasol i brosiectau yn unig.

## 1.2 GORCHYMYN DATBLYGU LLEOL

- 1.2.1 Mae Gorchymyn Datblygu Lleol yn un o nifer o fecanweithiau a all symleiddio a chyflymu proses gynllunio. Mae Gorchymyn Datblygu Lleol yn rhoi caniatâd cynllunio i'r math o ddatblygiad a nodir yn y Gorchymyn, a thrwy wneud hynny, gall gael gwared ar yr angen i gais cynllunio gael ei wneud gan ddatblygwr neu feddiannydd ar gyfer pob newid defnydd y mae angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer ar hyn o bryd.
- 1.2.2 Mae'r Gorchymyn Datblygu Lleol yn gweithio trwy esemptio rhai datblygiadau o'r angen i wneud cais am ganiatâd cynllunio penodol, a gall y rheini sy'n dymuno manteisio ar gyfleoedd o'r fath weithredu heb oblygiadau amser a chost gorfod cyflwyno cais cynllunio. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd i ddatblygwyr trwy ddiffinio ymlaen llaw pa ddatblygiad sy'n dderbyniol ac y gellir ymgymryd ag ef heb fod angen caniatâd cynllunio penodol. Un o fanteision sylweddol y Gorchymyn Datblygu Lleol yw ei fod yn galluogi awdurdodau lleol i siapio eu hardaloedd lleol trwy annog mathau penodol o ddatblygiad mewn ardaloedd priodol. Gall Gorchymyn Datblygu Lleol fod yn berthnasol i ardal, safle neu ardal ddatblygu benodol ac mae'n caniatáu mathau penodol o ddatblygiad. Dylid nodi nad yw'n cael gwared ar yr angen i dderbyn unrhyw ganiatâd yn ymwneud â rheoliadau ac ati sydd y tu allan i'r system gynllunio - ee rheoliadau adeiladu.

## 1.3 FFRAMWAITH CYFREITHIOL

- 1.3.1 Mae cymhwyso'r Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol i Orchymyn Datblygu Lleol yn broses newydd ac ni roddwyd canllawiau ar y gofynion a'r math o asesiad sy'n ofynnol. Oherwydd nad yw'r Gorchymyn Datblygu Lleol hwn yn ddull strategol integredig a fyddai'n cael ei gynnwys mewn Asesiad Amgylchedd Strategol, mae'n ymddangos mai fframwaith yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yw'r dull mwyaf addas o ystyried nad oes unrhyw ofyniad rheoleiddio penodol ar hyn o bryd.
- 1.3.2 Ar gyfer datblygiad Atodlen 1, mae Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn orfodol. Ar gyfer datblygiad Atodlen 2, mae'r gofyniad am Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn ddewisol ac mae ei angen dim ond pan fo'r gwaith arfaethedig yn debygol o arwain at effeithiau amgylcheddol sylweddol. Cyfrifoldeb Cyngor Sir Caerfyrddin, fel yr awdurdod cymwys perthnasol, yw penderfynu a oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a'r dull o benderfynu hyn yw cais am farn sgrinio ffurfiol.

---

<sup>1</sup> Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif 003/2012 Canllawiau ar Ddefnyddio Gorchmynion Datblygu Lleol. 30 Ebrill 2012 <http://gov.wales/docs/desh/policy/130131ldocircularcy.pdf>

- 1.3.3 Nid yw'r Gorchymyn Datblygu Lleol Arfaethedig yn bodloni'r meini prawf a restrir yn Atodlen 1 y Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol. Mae'n bodloni gofynion Atodlen 2 10(b) y Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol '*Urban development, including the construction of shopping centres...*' Tua 5.5 hectar yw maint y safle arfaethedig, sy'n fwy na'r trothwyon o 1 hectar a amlinellir yn yr Atodlen ac, fel y cyfryw, mae'r angen am Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn destun Barn Sgrinio.
- 1.3.4 Dylid cymryd y meini prawf dethol a amlinellir yn Atodlen 3 y Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol i ystyriaeth wrth benderfynu a yw'r Cynllun Arfaethedig angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Mae Atodlen 3 y Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (*Selection Criteria for Screening Schedule 2 Development*) yn gwneud ystyriaeth o'r canlynol yn ofynnol:
- Nodweddion y datblygiad;
  - Lleoliad y datblygiad; a
  - Mathau a nodweddion effeithiau posibl.
- 1.3.5 Mae adrannau dilynol yr Adroddiad Sgrinio Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol hwn yn bodloni gofynion Atodlen 3 i gynorthwyo Cyngor Sir Caerfyrddin i wneud penderfyniad pa un a oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer y Gorchymyn Datblygu Lleol Arfaethedig.

## 1.4 STRWYTHUR YR ADRODDIAD

- 1.4.1 Mae strwythur yr Adroddiad Sgrinio Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol hwn fel a ganlyn:
- **Adran 1:** Cyflwyniad;
  - **Adran 2:** Dull a Methodoleg;
  - **Adran 3:** Nodweddion y Cynllun Arfaethedig. Yn unol â Rheoliad 6 (2) Rheoliadau 2017, mae adran 3 yn darparu;
    - a) cynllun digonol i nodi'r tir; a
    - b) disgrifiad o'r datblygiad, gan gynnwys yn benodol—
      - (i) disgrifiad o nodweddion ffisegol y datblygiad a, phan fo'n berthnasol, gwaith dymchwel;
  - **Adran 4:** Lleoliad y Cynllun Arfaethedig. Yn unol â Rheoliad 6 (2) Rheoliadau 2017, mae adran 4 yn darparu;
    - b) disgrifiad o'r datblygiad, gan gynnwys yn benodol-
      - ii) disgrifiad o leoliad y datblygiad, gan roi sylw penodol i sensitifwydd amgylcheddol ardaloedd daearyddol sy'n debygol o gael eu heffeithio;
  - **Adran 5:** Nodweddion effeithiau posibl (gan gynnwys gwerthusiad effeithiau cronol). Yn unol â Rheoliad 6 (2) Rheoliadau 2017, mae adran 5 yn darparu
    - (c) disgrifiad o'r agweddau ar yr amgylchedd sy'n debygol o gael eu heffeithio'n sylweddol gan y datblygiad;
    - (ch) disgrifiad o unrhyw effeithiau sylweddol tebygol, i raddau'r wybodaeth sydd ar gael am yr effeithiau hynny, y datblygiad arfaethedig ar yr amgylchedd yn deillio o'r—
      - (i) gweddillion ac allyriadau disgwylidig a'r cynhyrchiant o wastraff, pan fo'n berthnasol;
      - (ii) y defnydd o adnoddau naturiol, a phridd, tri, dŵr a bioamrywiaeth yn benodol; ac
    - (d) gwybodaeth neu sylwadau eraill y mae'r unigolyn sy'n gwneud y cais yn dymuno ei ddarparu neu ei wneud gan gynnwys unrhyw nodweddion y datblygiad arfaethedig neu

unrhyw fesurau a ragwelir i osgoi neu atal yr hyn a allai fod yn effeithiau niweidiol sylweddol ar yr amgylchedd fel arall;

→ **Adran 6:** Crynodeb.



## 2 DULL A METHODOLEG

### 2.1 DULL

2.1.1 Ni fyddai'r prosiectau unigol a fydd yn rhan o'r Gorchymyn Datblygu Lleol angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ynddynt eu hunain, ond, gan fod y Gorchymyn Datblygu Lleol yn darparu fframwaith ar gyfer darparu nifer o brosiectau, dylid sgrinio effaith gyffredinol y datblygiadau unigol cyfunol. Caiff y cais hwn am farn sgrinio ei ategu gan wybodaeth am effeithiau amgylcheddol posibl y Cynllun Arfaethedig. Mae hefyd yn cymryd i ystyriaeth y safle presennol ac amodau sylfaenol, a'r datblygiad y mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn bwriadu ei ganiatáu yng Nghanol Tref Llanelli ynghyd â'r rheolaethau rheoli a fydd yn cael eu cymhwyso i'r prosiect.

### 2.2 AMODAU SYLFAENOL

2.2.1 Cynhaliwyd adolygiad o amodau sylfaenol ar gyfer y Safle ar sail pynciau unigol ac fe'i hamlinellir yn Adran 4 isod. Mae'r wybodaeth hon o fis Medi 2017.

2.2.2 Cafwyd gafeal ar y wybodaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn trwy chwiliadau pen desg o gronfeydd data allweddol sydd ar gael yn gyhoeddus, gan gynnwys y Pwyllgor Gwybodaeth Ddaearyddol Amlasiantaeth (MAGIC) (<http://www.magic.gov.uk/>) ac Asiantaeth yr Amgylchedd (<http://maps.environment-agency.gov.uk>).

2.2.3 Lluniwyd nifer o Adroddiadau Technegol i hysbysu cynnwys y Gorchymyn Datblygu Lleol, fel a ganlyn:

- Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd<sup>2</sup>;
- Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol<sup>3</sup>; ac
- Asesiad Seilwaith (gan gynnwys strategaeth ddraenio)<sup>4</sup>.

2.2.4 Adolygwyd a defnyddiwyd canfyddiadau'r arolygon hyn i hysbysu'r adroddiad hwn ac maent ar gael gan y Cyngor.

### 2.3 ADOLYGIAD O EFFEITHIAU SYLWEDDOL POSIBL

2.3.1 Cynhaliwyd yr adolygiad o effeithiau sylweddol posibl sy'n gysylltiedig â'r cynnig yn Adran 5 yn seiliedig ar yr amodau sylfaenol a nodwyd yn Adran 4.

2.3.2 Ar ôl troi'r Gyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol 2014/52/UE yn gyfraith y DU, mae Rheoliad 6.2e yn caniatáu ar gyfer trafod a nodi mesurau penodol i brosiectau i osgoi a / neu atal effeithiau amgylcheddol niweidiol sylweddol. Dylid ystyried cynnwys mesurau o'r fath ac i ba raddau y maent yn osgoi a / neu yn atal effeithiau amgylchedd niweidiol wrth ffurfio Barn Sgrinio Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Mae'r dull o nodi mesurau lliniaru posibl ar gamau cynnar cynllunio prosiect a'r broses gynllunio yn cyd-fynd â chanllawiau'r Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol (IEMA), *Shaping Quality Development*<sup>5</sup>.

2.3.3 Fel y cyfryw, yn rhan o'r adolygiad o effeithiau amgylcheddol tebygol, mae mesurau lliniaru wedi cael eu hystyried er mwyn deall effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Arfaethedig. Pan fo mesurau lliniaru wedi cael eu nodi ar y cam hwn, mae hyn wedi cael ei nodi yn **Nhabl 2-1** isod.

---

<sup>2</sup> WSP(2017) Gwybodaeth Gorchymyn Datblygu Lleol Llanelli i Hysbysu Gwaith Sgrinio Rheoliadau Cynefinoedd

<sup>3</sup> WSP(2017) Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol Cam 2 Llanelli

<sup>4</sup> WSP(2017) Cynllun Cyflenwi Canol Tref Llanelli. Adroddiad Cam 1: Lleoliad a chapasiti cyfleustodau presennol

<sup>5</sup> IEMA, *Environmental Impact Assessment Guide to Shaping Quality Development*, Tachwedd 2015

Tabl 2-1 Disgrifiad o fesurau lliniaru a ystyriwyd

MATH O FESUR LLINIARU	DIFFINIAD O'R MESUR LLINIARU
Prif Fesur Lliniaru	Lliniaru hanfodol, yn cynnwys agwedd sylfaenol ar gynllun y prosiect.
Mesur Lliniaru Eilaidd	Lliniaru rhagweladwy, angen rhagor o fewnbwn ac asesu i gyflawni canlyniad dymunol yr ymdrechion.
Mesur Lliniaru Trydyddol	Lliniaru diwrthdro, o'r safbwynt y byddai'n orfodol waeth beth yw canlyniadau asesiadau o'r effaith amgylcheddol.

## GWERTHUSIAD O EFFEITHIAU MEWN CYFUNIAD

- 2.3.4 Yn unol ag Atodlen 3, Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol 2017 mae'r potensial ar gyfer ffeithiau cronol mewn cyfuniad wedi cael ei gymryd i ystyriaeth. Ar hyn o bryd, nid oes methodoleg nac arfer gorau a dderbynnir yn eang ar gyfer asesu effeithiau cronol, er bod nifer o ddogfennau canllaw ar gael.
- 2.3.5 Er mwyn canfod effeithiau mewn cyfuniad tebygol, mae asesiad ansoddol yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael wedi cael ei gynnal. Cwblhawyd y fethodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer gwerthuso effeithiau mewn cyfuniad mewn tri cham, a amlinellir isod.

### CAM 1 – NODI A GWERTHUSO PROSIECTAU AR GYFER YSTYRIAETH

- 2.3.6 Mae adolygiad o'r wybodaeth a gedwir ar borth cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ystyried pob datblygiad presennol a/neu a gymeradwywyd, yn unol â Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol 2017.
- 2.3.7 Er mwyn cynnal cymesuredd, bydd ardal chwilio 500 medr yn cael ei chymhwyso wrth ystyried datblygiadau posibl yr ymrwymwyd iddynt ac ni fydd ceisiadau cynllunio a wrthodwyd, a dynnwyd yn ôl, a gyflwynwyd ond ni chafwyd penderfyniad yn eu cylch eto neu dir a nodwyd mewn cynlluniau datblygu lleol yn cael eu hystyried.
- 2.3.8 Bydd pob un o'r prosiectau a nodir yn cael ei werthuso er mwyn penderfynu a yw'r maen prawf canlynol yn cael ei fodloni:
- A oes cyfnod adeiladu neu weithredol cydamserol yn y Cynllun Arfaethedig?
  - A yw'r prosiect o fewn ffin ddaearyddol berthnasol i'r Cynllun Arfaethedig?
  - A oes potensial bod y Cynllun Arfaethedig yn rhannu derbynyddion sensitif cyffredin â'r datblygyd yr ymrwymwyd iddynt a nodwyd?
  - A roddwyd y caniatâd yn ystod y pum mlynedd diwethaf?

## **CAM 2 – NODI DERBYNYDDION CYFFREDIN**

- 2.3.9 Bydd y maen prawf uchod yn cael ei hysbysu gan adolygiad lefel uchel o ddogfennau ceisiadau cynllunio a gyflwynwyd ar gyfer pob datblygiad yr ymrwymwyd iddo. Pan nad oes gwybodaeth ar gael, bydd tybiaethau'n cael eu gwneud yn seiliedig ar ddyfarniad proffesiynol ac yn cael eu datgan yn eglur ochr yn ochr ag unrhyw ansicrwydd. Caiff derbynyddion cyffredin eu gwerthuso o ran eu categori derbynydd eang yn unol ag Atodlen 4 Rhan 1 o'r Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol 2017, e.e. poblogaeth neu ddŵr. Caiff y derbynyddion penodol eu nodi a'u gwerthuso wedyn. Mae hyn yn sicrhau bod effeithiau mewn cyfuniad yn cael ystyriaeth ddyledus ar y lefel derbynydd a chynhelir asesiad ar lefel fwy manwl pan fydd derbynydd ac effaith debygol gyffredin yn unig.

## **CAM 3 – GWERTHUSO EFFEITHIAU MEWN CYFUNIAD**

- 2.3.10 Ar ôl i'r derbynyddion i'w hasesu gael eu diffinio, rhoddir ystyriaeth i'w goddefiad i effeithiau pan fo'n bosibl.
- 2.3.11 Caiff ffynonellau gweithgareddau adeiladu neu/a gweithredol mewn cyfuniad â'r Cynllun Arfaethedig eu gwerthuso wedyn. Mae angen effaith bosibl ar yr un derbynydd am hyd tebyg yn y rhaglenni cyffredinol er mwyn cael effaith mewn cyfuniad bosibl.
- 2.3.12 Mae'r gwerthusiad ansoddol ar y lefel derbynydd yn cynnig ystyriaeth o'r canlynol;
- Maint neu newid cyfunol;
  - Sensitifrwydd / gwerth / pwysigrwydd y derbynydd / amgylchedd derbyn i newid; neu/a
  - Hyd a'r gallu i wrthdroi'r effaith.
- 2.3.13 Trwy gyfuniad o'r gwerthusiad ansoddol a'r mesurau lliniaru a gyflwynir, gellir dod i gasgliadau ynghylch y tebygolrwydd o effeithiau amgylcheddol mewn cyfuniad sylweddol.

# 3 NODWEDDION Y CYNLLUN ARFAETHEDIG

## TROSOLWG

- 3.1.1 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn paratoi Gorchymyn Datblygu Lleol i gynorthwyo'r gwaith o adfywio canol tref Llanelli. Bydd y Gorchymyn Datblygu Lleol yn rhoi caniatâd cynllunio amodol o fewn ardal ofodol ddiffiniedig ar gyfer datblygiad fel y nodir yn y Gorchymyn Datblygu Lleol mewn unedau llawr daear ac uwch. Bwriedir i'r Gorchymyn Datblygu Lleol gynyddu lefelau meddiannaeth a nifer yr ymwelwyr yng nghanol y dref a bydd yn cynorthwyo'r ddarpariaeth o Gynllun Meistr Adfywio.
- 3.1.2 Bydd y defnyddiau y bydd y Gorchymyn Datblygu Lleol yn eu caniatáu yn cynnwys siopau, gwasanaethau ariannol a phroffesiynol, bwytaï a chaffis, sefydliadau yfed (ond nid clybiau nos), siopau tecawê bwyd poeth, swyddfeydd busnes, gwestai a thai llety, anheddau preswyl, sefydliadau nad ydynt yn breswyl, adeiladau ymgynnull a hamdden, golchdai a busnesau tacsï. Dylid cyfeirio at yr atodlen o ddefnyddiau a gymeradwyir yn y Gorchymyn Datblygu Lleol.
- 3.1.3 Mae lleoliad y Safle a ffin y Gorchymyn Datblygu Lleol wedi eu nodi yn **Atodiad A** yr adroddiad hwn.

## NODAU'R PROSIECT

- 3.1.4 Yn dilyn cyfnod o dair blynedd, bydd y Gorchymyn Datblygu Lleol yn cael ei ystyried yn llwyddiannus os bydd dau neu fwy o'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud:
- Cyflwynwyd Tystysgrifau Cydymffurfiad i bump neu fwy o unedau llawr daear gwag;
  - Mae nifer yr ymwelwyr blynyddol wedi cynyddu yn ardal y Gorchymyn Datblygu Lleol;
  - Mae nifer yr unedau llawr daear gwag wedi gostwng yn ardal y Gorchymyn Datblygu Lleol;
  - Cyflwynwyd Tystysgrifau Cydymffurfiad i dair neu fwy o unedau gwag llawr uwch - mae hyn yn cynnwys fflatiau a defnyddiau preswyl.
- 3.1.5 Bydd y Gorchymyn Datblygu Lleol yn destun adolygiad parhaus yn ystod y cyfnod tair blynedd hwn a gellid ei ymestyn neu ei leihau yng ngoleuni llwyddiant neu fethiant y Gorchymyn Datblygu Lleol i fodloni'r nodau uchod. Gallai newid defnydd sydd wedi cychwyn yn ystod y cyfnod tair blynedd barhau; fodd bynnag, ni fydd unrhyw newidiadau newydd yn cael eu cymeradwyo heb ganiatâd cynllunio ffurfiol.

## AMODAU ALLWEDDOL / MESURAU LLINIARU

- 3.1.6 Ni fydd unrhyw newid defnydd a ganiateir gan y Gorchymyn Datblygu Lleol yn digwydd tan i dystysgrif cydymffurfiad gael ei chymeradwyo'n ysgrifenedig gan Gyngor Sir Caerfyrddin, yn dilyn adolygiad o gynigion.
- 3.1.7 Ni fydd cychwyn ffisegol unrhyw newid a defnydd a ganiateir gan y Gorchymyn Datblygu Lleol yn cychwyn tan fod unrhyw amodau/materion a nodwyd yn y dystysgrif cydymffurfiad wedi cael sylw a'u cymeradwyo yn ysgrifenedig gan Gyngor Sir Caerfyrddin ac ymgynghoreion perthnasol a bod Cymeradwyaeth Rhybudd Cychwyn wedi ei gyflwyno.
- 3.1.8 Mae'r Gorchymyn Datblygu Lleol yn caniatáu newid defnydd, nid yw'n caniatáu newid i strwythur, maint neu ymddangosiad allanol adeilad.

- 3.1.9 Ceir cyfres o amodau cyn cychwyn yn y Gorchymyn Datblygu Lleol Drafft, y datblygwyd llawer ohonynt ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol. Mae'r amodau hyn hefyd yn ceisio adlewyrchu ysgogwyr polisi allweddol (ee Nodyn Cyngor Technegol 15 Polisi Cynllunio Cymru). Bydd ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i ddiwygio'r Gorchymyn Datblygu Lleol Drafft i adlewyrchu unrhyw sylwadau a wneir yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus (gan Dŵr Cymru Welsh Water yn fwyaf nodedig) ynghyd ag argymhellion a nodir mewn tystiolaeth ategol (ee Astudiaeth Seilwaith y Gorchymyn Datblygu Lleol).
- 3.1.10 Mae proses y Gorchymyn Datblygu Lleol yn destun gweithdrefn hysbysu lle caiff rhanddeiliaid allweddol eu hysbysu am geisiadau. Mae hyn yn sicrhau bod "lliniaru" yn cael ei ymgorffori ym mhroses y Gorchymyn Datblygu Lleol o ystyried y pwyslais cryf ar gydweithredu / ymgysylltu a monitro. Yn seiliedig ar nifer yr unedau presennol ar safle'r Prosiect, mae'n annhebygol y gellid darparu mwy na 180 o addasiadau preswyl yn ffisegol. Yn ymarferol, mae'n hynod annhebygol y byddai ceisiadau ar gyfer cymaint â hyn o addasiadau yn cael eu cyflwyno o dan y Gorchymyn Datblygu Lleol. Tybiwyd sefyllfa waethaf bosibl o 180 o unedau preswyl yn derbyn Cymeradwyaeth Hysbysiad Cychwyn at ddibenion yr asesiad hwn felly. Pe bai ffigur o 100 o Gymeradwyaethau Hysbysiad Cychwyn ar gyfer unedau preswyl yn cael ei gyrraedd yn ystod oes y cyfnod 3 blynedd, yna bydd moratoriwm yn cael ei gyflwyno ar y Gorchymyn Datblygu Lleol a byddai'n cael ei adolygu gan hysbysu'r Cyngor llawn am y canlyniadau. Bydd adolygiad o'r fath yn cael ei hysbysu gan fewnbwn y rhanddeiliad hysbysu (gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a DCWW).

# 4 LLEOLIAD Y CYNLLUN ARFAETHEDIG

## 4.1 CYFLWYNIAD

4.1.1 Llanelli yw'r dref fwyaf yn Sir Gaerfyrddin â phoblogaeth o tua 50,000. Amaethyddol yw'r defnydd tir yn bennaf i'r gogledd ac i'r gorllewin o'r dref. Mae afon ac aber Lluchwr yn uniongyrchol i'r de a'r dwyrain, sy'n gwahanu'r dref o Abertawe, sydd wedi ei lleoli tua 16 cilomedr i ffwrdd.

## 4.2 TOPOGRAFFI

4.2.1 Mae ardal y Gorchymyn Datblygu Lleol yn gymharol wastad â llethr graddol o ran topograffi tua'r de-orllewin. Mae adolygiad o fapio LiDAR yn dynodi codiad lleol o ran topograffi yng nghornel de-orllewinol ardal y Gorchymyn Datblygu Lleol. Mae'r safle yn amrywio o tua 10 metr AOD i 8.5 metr AOD.

## 4.3 DEFNYDD TIR HANESYDDOL

4.3.1 Mae Llanelli wedi bodoli ers y 1600au. Tyfodd y dref yn sylweddol yn y 1800au yn sgil cloddio glo a chopr lleol. Mae'r Safle yn rhan o Ganol y Dref sefydledig.

## 4.4 ANSAWDD AER

4.4.1 Mae'r ansawdd aer yn Llanelli a thrwy Sir Gaerfyrddin gyfan yn gyffredinol dda. Fodd bynnag, nodir bod Ardal Rheoli Ansawdd Aer wedi cael ei dynodi'n ddiweddar (2016) o fewn ac o amgylch y dref. Bydd Cynllun Gweithredu yn cael ei lunio yn hyn o beth. Fodd bynnag, gallai mwy o ddatblygiad yng Nghanol y Dref a chynnydd i nifer yr ymwelwyr ddod â mwy o symudiadau ceir a bysiau i'r ardal a allai gael effaith ar lefelau cyfredol crynodiadau llygryddion felly, os bydd tagfeydd yn dod yn broblem. Bydd hwn yn fater ar gyfer ystyriaeth bosibl drwy'r Cynllun Gweithredu, fodd bynnag.

## 4.5 TRAFNIDIAETH A MYNEDIAD

4.5.1 Mae ardal y Gorchymyn Datblygu Lleol yn cynnwys rhan o ganol y dref yn Llanelli. Mae canol y dref yn hygyrch trwy amrywiaeth o foddau trafnidiaeth, gan gynnwys mynediad i gerbydau a cherddwyr, gyda nifer o lwybrau trafnidiaeth allweddol yn gwasanaethu ac yn mynd i mewn i ganol y dref ac ardal y Gorchymyn Datblygu Lleol. Ystyrir bod unrhyw effeithiau a allai godi yn debygol o fod yn fach.

## 4.6 SŴN

4.6.1 Sŵn traffig ffordd yw'r brif ffynhonnell sŵn yn yr ardal. Mae hyn yn cynnwys sŵn traffig ffordd o'r A484 a'r B4304. Mae'r A476 wedi ei neilltuo fel Ardal Blaenoriaeth Cynlluniau Gweithredu ynghylch Sŵn a byddai'n ffynhonnell o sŵn traffig ffordd parhaus. Neilltuwyd yr A476 oherwydd lefel y sŵn presennol o draffig sy'n teithio drwy'r ardal.

4.6.2 Os bydd cynnydd i nifer yr ymwelwyr a'r cerbydau yn yr ardal o fewn ac o gwmpas y Gorchymyn Datblygu Lleol, efallai y bydd mân effaith. Ystyrir bod disgwyl i'r holl effeithiau fod yn fach a/neu dros dro. Nid yw'n debygol y bydd unrhyw effeithiau sylweddol.

## 4.7 BIOAMRYWIAETH

- 4.7.1 Mae Safleoedd Dynodedig Ewropeaidd (a adnabyddir fel Safleoedd Natura 2000 hefyd) yn cynnwys unrhyw Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA), Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), Safleoedd o Bwysigrwydd Cymunedol a safleoedd RAMSAR wedi eu lleoli o fewn 2 gilomedr i'r Cynllun neu o fewn 30 cilomedr i'r Cynllun lle mae ystlumod yn un o fuddiannau cymhwyso'r safle dynodedig (wedi ei fesur o'r pwynt agosaf).
- 4.7.2 Ceir un Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) o fewn 2 gilomedr i'r cynllun, a nodir yn Nhabl 4-1.

**Tabl 4-1 ACA o fewn 2 gilomedr**

SAFLE	DYNODIAD	PELLTER A CHYFEIRIAD
<b>ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd</b>	Mae Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd yn cynnig enghraifft o safle aberol mawr ar arfordir de Cymru, gan gynnwys aberoedd Afonydd Llŵchwr, Taf a Thywi. Mae'r aberoedd yn ffurfio un uned weithredol o gwmpas Cilfach Tywyn, lle ceir newidiadau pwysig i waddodion a biota. Ceir sawl cynefin Atodlen 1 yn yr ardal sy'n brif reswm am ddynodiad y safle. Mae'r rhain yn cynnwys; banciau tywod a orchuddir yn rhannol gan y môr drwy'r adeg; Aberoedd; Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod nad ydynt o dan ddŵr môr adeg llanw isel; cilfachau a baeau bas mawr; dolydd heli'r lwerydd. Mae rhywogaethau gwangen Atodlen II hefyd yn bresennol ac yn brif reswm am ddynodiad y safle.	1.35 cilomedr i'r de-orllewin

## ARDAL GWARCHODAETH ARBENNIG

- 4.7.3 Ceir un Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA o fewn 2 gilomedr i'r cynllun, a nodir yn Nhabl 4-2

**Tabl 4-2 AGA o fewn 2 gilomedr**

SAFLE	DYNODIAD	PELLTER A CHYFEIRIAD
<b>AGA Bae Caerfyrddin a Chilfach Tywyn</b>	AGA Bae Caerfyrddin oedd yr AGA gwbl forol gyntaf yn y DU. Mae'n safle un nodwedd, a ddynodwyd ym mis Mehefin 2003 ar sail y fôr-hwyaden ddu, <i>Melanitta nigra</i> .	1.35 cilomedr i'r de-orllewin

## RAMSAR

- 4.7.4 Ceir un safle Ramsar o fewn 2 gilomedr i'r Cynllun, a nodir yn Nhabl 4-3.



Tabl 4-3 Ramsar o fewn 2 gilomedr

SAFLE	DYNODIAD	PELLTER A CHYFEIRIAD
<b>Ramsar Cilfach Tywyn</b>	<u>Maen Prawf 5 Ramsar</u>  Crynodeiadau o Rywogaethau o bwysigrwydd rhyngwladol â niferoedd brig yn y gaeaf:  → 41655 o adar y dŵr (cymedr brig 5 mlynedd 1998/99 – 2002/2003).	1.35 cilomedr i'r de-orllewin
	<u>Maen Prawf 6 Ramsar</u>  Poblogaethau rhywogaethau yn bresennol ar lefelau o bwysigrwydd rhyngwladol;  Rhywogaethau/poblogaeth cymhwys (fel y nodwyd ar yr adeg ddynodi):  Rhywogaethau â niferoedd brig yn y gwanwyn/hydref:  <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pibydd coesgoch, (<i>Tringa totanus</i>);</li> <li>• Hwyaeden lostfain, (<i>Anas acuta</i>)</li> <li>• Pioden fôr Ewrasiaidd, (<i>Haematopus ostralegus</i>);</li> <li>• Pibydd coch, (<i>Calidris canutus islandica</i>);</li> <li>• Rhywogaethau/poblogaethau a nodwyd ar ôl y dynodiad ar gyfer ystyriaeth bosibl yn y dyfodol o dan faen prawf 6:</li> <li>• Rhywogaethau â niferoedd brig yn y gaeaf:</li> <li>• Hwyaeden lydanbig, (<i>Anas clypeata</i>).</li> </ul>	

- 4.7.5 Nid oes unrhyw AGAau, ACAau, Safleoedd o Bwysigrwydd Cymunedol na safleoedd RAMSAR eraill wedi'u lleoli o fewn 2 gilomedr i'r Cynllun, neu 30 cilomedr i'r Cynllun pan mai ystumod yw'r nodwedd gymhwys.

#### SAFLEOEDD O DDIDDORDEB GWYDDONOL ARBENNIG (SODDGA)

- 4.7.6 Ceir un Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA o fewn 2 gilomedr i'r Cynllun, a nodir yn Nhabl 4-4.

Tabl 4-4 SoDdGA o fewn 2 gilomedr

SAFLE	DYNODIAD	PELLTER A CHYFEIRIAD
<b>SoDdGA Cilfach Tywyn ac Aberoedd Llŵchwr</b>	Y ganolfan aberol fwyaf yn hen sir Gorrlewin Morgannwg a Bwrdeistref Llanelli. Ceir yno ardaloedd helaeth o forfeydd heli pori, gwastadeddau tywod a llaid, ac mae'r ardal yn arwyddocaol yn rhyngwladol oherwydd ei phoblogaethau adar hirgoes ac adar y dŵr gyda chyfanswm o fwy na 46,000 o adar ar gyfartaledd yn gaeafu yno.	1.35 cilomedr i'r de-orllewin

## DYNODIADAU ANSTATUDOL

- 4.7.7 Ceir un Warchodfa Natur Leol yn cynnwys Twyni Doc y Gogledd wedi ei lleoli tua 1.3 cilomedr i'r de-orllewin.
- 4.7.8 Nid oes unrhyw Warchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd o Bwysigrwydd Biolegol na Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur eraill na dynodiadau anstatudol eraill wedi'u lleoli o fewn 2 gilomedr i'r Cynllun.

## 4.8 TREFLUN A GOLYGFYDD

- 4.8.1 Nid oes unrhyw Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn agos at ffin y Gorchymyn Datblygu Lleol. Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr wedi ei lleoli tua 2.3 cilomedr i'r de-orllewin o'r Gorchymyn Datblygu Lleol. Nid oes unrhyw Barciau Cenedlaethol o fewn 2 gilomedr i'r ffin chwaith.
- 4.8.2 Lleolwyd ffin y Gorchymyn Datblygu Lleol mewn ardal o Ganol Tref Llanelli. Mae canol y dref yn enghraifft nodweddiadol o hen ardal drefol ddiwydiannol o safbwynt cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Ceir craidd fanwerthu a masnachol sefydledig yn Llanelli sydd wedi dioddef amodai economaidd anodd.

## 4.9 AMGYLCHEDD HANESYDDOL

- 4.9.1 Nid oes unrhyw feysydd brwydr cofrestredig na pharciau a gerddi cofrestredig o fewn 500 medr i ardal safle Gorchymyn Datblygu Lleol Llanelli. Mae'r Gorchymyn Datblygu Lleol yn cynnwys ardal canol y dref ac wedi ei gyfansoddi o ddefnydd cymysg, sef cadwyni manwerthu a bwytai, busnesau annibynnol bach, banciau a llyfrgelloedd yn bennaf, a thai cymdeithasol dwys sydd wedi eu hadeiladu o amgylch canol y dref.
- 4.9.2 Ceir 14 o Adeiladau Rhestredig o fewn ffin y Gorchymyn Datblygu Lleol fel y nodir yn Nhabl 4-5, isod. Ceir nifer o Adeiladau Rhestredig eraill yn ardaloedd eraill Canol y Dref hefyd (nid o fewn ffin y Gorchymyn Datblygu Lleol) ac o fewn 500 medr i'r ffin. Mae'r rhain yn cynnwys cymysgedd o adeiladau preswyl, adeiladau masnachol, eglwysi a thafarndai ar hyn o bryd.

Tabl 4-5 Adeiladau rhestredig o fewn ffin y Gorchymyn Datblygu Lleol

ADEILAD RHESTREDIG	GRADD
Yr Arcêd, Stryd Stepney	II
Y Swyddfa Bost, Heol yr Orsaf	II
Rhif 1 (Banc Midland), Heol yr Orsaf	II
Rhif 24 Stryd Cowell	II
Rhif 26 Stryd Cowell	II
Rhif 21 (Banc Lloyd's) Stryd Stepney	II
Y Llyfrgell Gyhoeddus, Stryd yr Eglwys	II
Rhif 20 Stryd Vaughan, Stryd y Bont	I
Rhif 22 Stryd Vaughan, Stryd y Bont	I
Rhif 24 Stryd Vaughan, Stryd y Bont	I
Rhif 2 (Tŷ Llanelly) Stryd Vaughan	I
Rhif 4 (Tŷ Llanelly) Stryd Vaughan	I
Rhif 8 Stryd y Bont	II
Rhif 6 Stryd y Bont	II

4.9.3 Mae mwnt yr Hen Gastell yn Heneb Restredig sydd wedi ei leoli tua 430 metr i'r dwyrain o ffin y Gorchymyn Datblygu Lleol. Mae'r heneb yn cynnwys castell mwnt a beili canoloesol. Mae'r mwnt yn grwn ac yn mesur oddeutu 30 metr mewn diamedr; mae'n rhannol o dan ddŵr cronfa ddŵr hen waith tunplat yr Hen Gastell. Mae'r mwnt wedi cael ei nodi fel safle tebygol Castell hanesyddol Carnwyllion. Mae'r heneb o bwysigrwydd cenedlaethol oherwydd y potensial i gynyddu gwybodaeth am drefniant amddiffynnol canoloesol. Mae'r heneb yn elfen bwysig yn y cyd-destun canoloesol ehangach a gellid disgwyl i'r strwythur ei hun gynnwys gwybodaeth archeolegol ynghylch cronoleg, technegau adeiladu a manylion gweithredol.

4.9.4 Mae rhan o'r ardal o fewn ffin y Gorchymyn Datblygu Lleol yn rhan o Ardal Gadwraeth Llanelli.

## 4.10 AMODAU A HALOGIAD Y DDAEAR

4.10.1 Nid oes unrhyw safleoedd tir halogedig neu dirlenwi hanesyddol cofrestredig o fewn Canol Tref Llanelli. Fodd bynnag, gallai halogiad tir fod yn bresennol o ganlyniad i ddefnyddiau cyfredol a blaenorol.

## 4.11 PERYGL LLIFOGYDD, HYDROLEG AC ADNODDAU DŴR

4.11.1 Yn rhan o broses y Gorchymyn Datblygu Lleol, lluniwyd Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol. Nod yr asesiad hwn yw ceisio egluro a mynd i'r afael â pherygl llifogydd i ganiatau cymeradwyaeth o'r Gorchymyn Datblygu Lleol a darparu manylion ar ba adeiladau y gellir eu datblygu a'r rheini na ellir eu datblygu.

4.11.2 Nodwyd fod yr ardal o ganol y dref o fewn ffin y Gorchymyn Datblygu Lleol yn y perygl mwyaf o lifogydd afonol o Afon Lliedi ac o ddŵr wyneb ffo. Nodir fod ardal y Gorchymyn Datblygu Lleol wedi ei lleoli ym Mharth Llifogydd 3 a Pharth Llifogydd 2 i raddau helaeth, fel y nodwyd ar fapiau llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hyn yn golygu bod gan ardal siawns o lifogydd sy'n fwy nag 1 o bob 100 (1%) bob blwyddyn, a 0.1% (1 ym mhob 1000).

4.11.3 Mae modelu hydrologig o Afon River Lliedi a gynhaliwyd yn 2009 yn dynodi y ceir llifogydd ar y safle i gychwyn trwy orlenwi tyllau caead wedi eu lleoli ar Mincing Lane, nesaf at Stryd y Farchnad, a rhagwelir y bydd yn digwydd yn ystod digwyddiadau â thebygolrwydd blynyddol o rhwng 1 ym mhob 25 ac 1 ym mhob 75.

4.11.4 Rhagwelir y bydd llifogydd yn ystod y digwyddiad tebygolrwydd blynyddol 1 ym mhob 100 yn cynyddu, gan arwain at lifogydd ar Stryd Vaughan ac ar hyd Stryd Stepney gan gynnwys ardaloedd i'r gogledd a'r de ar y safle. Rhagwelir mai 0.2 metr fydd dyfnder nodweddiadol y llifogydd. Rhagwelir y bydd cyflymder y llif yn gyffredinol isel (>0.1 metr yr eiliad) gyda chyflymder ychydig yn uwch (hyd at 0.4 metr yr eiliad) yn cael eu rhagweld ar hyd Stryd Stepney.

4.11.5 Rhagwelir y bydd tua 80% o ardal y Gorchymyn Datblygu mewn perygl o lifogydd afonol yn ystod y digwyddiad tebygolrwydd blynyddol 1 ym mhob 1000. Rhagwelir dyfnderau llifogydd o hyd at 1 fedr yn ardal Mincing Lane a 0.6 - 0.7 metr ar hyd Stryd Stepney a Stryd Vaughan. Rhagwelir dyfnderau o fwy na 2 fedr mewn lleoliadau ar wahân i'r de-orllewin o ardal y Gorchymyn Datblygu Lleol ar Stryd Cowell, er yr ystyrir bod y rhain yn debygol o fod yn gysylltiedig â strwythurau islawr. Cyflymder llif ar hyd Stryd Stepney

## 4.12 CRYNODEB O DDERBYNYDDION SENSITIF ALLWEDDOL

4.12.1 Mae Adran 4 uchod yn cadarnhau nad oes unrhyw ardaloedd sensitif, fel y nodir gan reoliad 2(1) Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol 2017, o fewn ffin y safle neu'n uniongyrchol gyfagos i'r Datblygiad Arfaethedig. Fodd bynnag, mae'r derbynyddion sensitif allweddol canlynol o bosibl yn destun effeithiau amgylcheddol:

→ ACA / AGA / Ramsar o fewn 2 gilomedr i ffin y Gorchymyn Datblygu Lleol;

- Adeiladau preswyl presennol o fewn ffin y Safle;
- Cymuned leol sy'n defnyddio Canol y Dref;
- Gweithwyr adeiladu;
- Cymeriad treflun lleol;
- Asedau Treftadaeth Dynodedig;
- Ardal Cadwraeth Llanelli;
- Asedau archaeolegol anhysbys;
- Cyfleusterau gwastraff; a
- Rhwydwaith dŵr budr a dŵr yfed.

# 5

## NODWEDDION EFFEITHIAU TEBYGOL

### 5.1.1

Mae **Tabl 5-1** yn darparu gwerthusiad o effeithiau posibl y Cynllun Arfaethedig ar yr amgylchedd gan ddefnyddio'r sail dystiolaeth a ddarperir uchod. Caiff tybiaethau ychwanegol sydd wedi hysbysu'r gwerthusiad eu cyflwyno hefyd yn ôl yr angen.

**Tabl 5-1 Gwerthusiad o'r effaith amgylcheddol debygol**

CATEGORI DERBYNNYDD	DERBYNNYDDION	EFFAITH	TRAFODAETH O'R EFFAITH
Bioamrywiaeth	ACA / AGA / Ramsar o fewn 2 gilomedr	Effaith anuniongyrchol cynnydd i garthffosiaeth o ganlyniad i'r newid defnydd i breswyl.	<p>Trafodir yr effaith hon yn fwy manwl yn yr adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y cyfeirir ato uchod.</p> <p>Mae'r Gorchymyn Datblygu Lleol yn cynnwys mesurau i atal gollyngiadau ychwanegol i'r garthffos gyhoeddus gan achosi effaith i'r ACA/AGA/Ramsar, trwy wneud cais am gymeradwyaeth gan Dŵr Cymru Welsh Water cyn rhoi caniatâd. Gan dybio bod y broses gymeradwyaeth yn atal newid i ansawdd dŵr yn yr ACA/AGA/Ramsar, ystyrir bod effeithiau sylweddol yn annhebygol.</p>
Poblogaeth ac Iechyd Pobl	Trigolion presennol Y Gymuned Leol	Tarfu yn gysylltiedig â sŵn, dirgryniad, llwch, deunydd gronynnol a llygredd golau, a gynhyrchir gan weithgareddau ar-safle dros dro a thraffig dymchwel / adeiladu.	<p>Gallai addasiadau a gweithgareddau cysylltiedig gynnwys amrywiaeth o offer dros dro. Fel y cyfryw, ceir rhyfaint o botensial ar gyfer tarfu yn gysylltiedig â sŵn a dirgryniad, cynnydd i lwch a deunydd gronynnol, yn ogystal â'r potensial o orlifo ysgafn a golau cryf i dderbynyddion preswyl. Byddai'r effeithiau dilynol yn rhai dros dro a byddai modd eu gwrthdroi.</p> <p>Pan fo'n briodol, tybir y byddai CEMP neu fesur atal llygredd arall ar waith ar gyfer pob addasiad a fyddai'n cynnwys mesurau arfer safonol / gorau er mwyn lleihau neu gyfyngu effeithiau amgylcheddol yn gysylltiedig â phob cam. Fel y cyfryw, ystyrir bod effeithiau sylweddol yn annhebygol.</p>
Poblogaeth ac Iechyd Pobl	Trigolion presennol Y Gymuned Leol	Cynnydd i grynodiadau llygryddion (NO <sub>x</sub> , NO <sub>2</sub> a PM <sub>10</sub> ) o allyriadau mygdarth yn deillio o draffig dymchwel / adeiladu	<p>Yn ystod gwaith Cadwraeth a gweithgareddau cysylltiedig, gallai allyriadau NO<sub>2</sub> a PM<sub>10</sub> ddeillio o draffig adeiladu o fewn y Gorchymyn Datblygu Lleol.</p> <p>Gan fod y newidiadau i'r adeiladau yn gymharol fach, prin fydd yr angen i gael gwared ar wastraff a danfon deunydd. Bydd nifer yr unedau i'w haddasu ar unrhyw un adeg yn fach hefyd. Fel y cyfryw, ystyrir bod effeithiau sylweddol yn annhebygol.</p>
Poblogaeth ac Iechyd Pobl	Trigolion presennol Y Gymuned Leol	Newidiadau i grynodiadau llygryddion (NO <sub>x</sub> , NO <sub>2</sub> a PM <sub>10</sub> ) o allyriadau mygdarth yn deillio o draffig a gynhyrchir gan y Cynllun Arfaethedig	<p>Ceir y potensial o draffig cynyddol yn ystod gweithrediad yr adeiladau preswyl newydd.</p> <p>Mae'r Gorchymyn Datblygu Lleol yn nodi na fydd gan drigolion newydd hawl i drwyddedau parcio ac felly bydd y cynnydd i draffig domestig yn fach. Fel y cyfryw, ystyrir bod effeithiau sylweddol yn annhebygol.</p>
Poblogaeth ac Iechyd Pobl	Gweithwyr adeiladu	Gweithwyr adeiladu yn cael eu heffeithio gan ddigwyddiad llifogydd	<p>Nodir fod ardal y Gorchymyn Datblygu Lleol wedi ei lleoli o fewn Parthau Llifogydd 2 a 3 Cyfoeth Naturiol i raddau helaeth.</p> <p>Tybir yn ystod y cyfnodau dymchwel ac adeiladu y byddai'r prif gontractwr ar y safle yn ymuno â Gwasanaeth Gwybodaeth Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru fel mesur rhagofalus. Fel y cyfryw, ystyrir bod effeithiau sylweddol yn annhebygol.</p>

CATEGORI DERBYNNYDD	DERBYNYDDION	EFFAITH	TRAFODAETH O'R EFFAITH
Poblogaeth ac Iechyd Pobl	Trigolion Newydd	Cynnydd i nifer yr adeiladau sydd mewn perygl o lifogydd	<p>Nodir fod ardal y Gorchymyn Datblygu Lleol wedi ei lleoli o fewn Parthau Llifogydd 2 a 3 Cyfoeth Naturiol i raddau helaeth.</p> <p>Datblygwyd Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol i sicrhau mai dim ond adeiladau sy'n addas o safbwynt perygl llifogydd fydd yn cael eu datblygu. Ni fydd y Gorchymyn Datblygu Lleol yn caniatáu newid defnydd i ddatblygiad hynod agored i niwed ar unedau llawr daear. Fel y cyfryw, ystyrir bod effeithiau sylweddol yn annhebygol.</p>
Cymeriad y Treflun Poblogaeth ac Iechyd Pobl Amgylchedd Hanesyddol	Cymeriad y treflun lleol Y gymuned leol Lleoliad asedau dynodedig Ardal Gadwraeth	Newidiadau i gymeriad presennol y treflun ac amwynder gweledol	<p>Newidiadau bach dros dro i gymeriad y treflun lleol yn ystod gwaith adeiladu oherwydd presenoldeb offer/cyfarpar. Fodd bynnag, bydd pob datblygiad wedi ei amgylchynu gan ffurfiau adeiledig / trefol sy'n cynnwys golygfeydd i mewn ac allan o'r Safle.</p> <p>Ni fydd y Gorchymyn Datblygu Lleol yn caniatáu newid i lawr daear yr adeiladau i gynnal ymddangosiad masnachol canol y dref.</p> <p>Wrth fuddsoddi yn y newid defnydd, efallai y bydd cyfle i wella cymeriad y treflun trwy ddod â mwy o adeiladau yn ôl i ddefnydd. Fel y cyfryw, ystyrir bod effeithiau sylweddol yn annhebygol a cheir potensial i'r Gorchymyn Datblygu Lleol fod o fudd i'r treflun lleol.</p>
Amgylchedd Hanesyddol	Asedau treftadaeth dynodedig (gan gynnwys adeiladau rhestredig ac ardaloedd Cadwraeth). Asedau archaeolegol wedi eu claddu.	Newidiadau ffisegol i asedau treftadaeth ac archeolegol	<p>Ni fydd y Gorchymyn Datblygu Lleol yn caniatáu newidiadau i adeiladau rhestredig ac ni fydd unrhyw waith cloddio ar gyfer sylfeini newydd.</p> <p>Nid yw adeiladau rhestredig yn debygol o gael eu heffeithio gan y bu datblygiad blaenorol helaeth o fewn ffin y Safle, mae gweddillion archeolegol yn debygol o fod wedi cael eu haflonyddu / eu tocio eisoes (os ydynt yn bresennol). Fel y cyfryw, ystyrir bod effeithiau sylweddol yn annhebygol.</p>
Eiddo / Seilwaith	Cyfleusterau gwastraff	Cynhyrchu gwastraff o weithgareddau dymchwel a/neu adeiladu a galw cynyddol am gyfleusterau trin / gwaredu gwastraff lleol	Gallai gwaith addasu a gweithgareddau cysylltiedig arwain at nifer o ffrydiau gwastraff. Tybir y bydd Cynllun Rheoli Gwastraff neu'n rhan o CEMP ar waith ac yn cael ei reoli gan y prif gontractwr er mwyn rheoli ffrydiau gwastraff sy'n deillio o'r gwaith, eu haildefnydd priodol (gan gynnwys aildefnydd ar y safle os yw'n briodol) neu ailgylchu a gwaredu yn y pen draw i gyfleusterau trin gwastraff perthnasol. Fel y cyfryw, ystyrir bod effeithiau sylweddol yn annhebygol.

CATEGORI DERBYNNYDD	DERBYNNYDDION	EFFAITH	TRAFODAETH O'R EFFAITH
Eiddo / Seilwaith	Cyfleusterau gwastraff	Cynhyrchu gwastraff o weithgareddau dymchwel a/neu adeiladu a galw cynyddol am gyfleusterau trin / gwaredu gwastraff lleol	Gallai'r Cynllun Arfaethedig arwain at gynhyrchu gwastraff a galw cynyddol am y cyfleusterau trin / gwaredu gwastraff lleol. Fodd bynnag, tybir bod gan wasanaethau casglu gwastraff bwrdeistrefol lleol y capasiti i gasglu'r cyfanswm ychwanegol bach o wastraff. Fel y cyfryw, ystyrir bod effeithiau sylweddol yn annhebygol.
Eiddo / Seilwaith	Rhwydwaith dŵr budr a dŵr yfed	Cynnydd i lifoedd dŵr budr, capasiti cysylltiedig carthffosydd a galw am ddŵr yfed o ganlyniad i'r Datblygiad Arfaethedig	Gallai'r Cynllun Arfaethedig arwain at boblogaeth fwy ac felly mwy o alw am y rhwydwaith carthffosydd lleol (h.y. lifoedd dŵr budr) a galw am ddŵr yfed. Mae'r Gorchymyn Datblygu Lleol yn cynnwys mesurau i atal gollyngiadau ychwanegol i'r garthffos gyhoeddus trwy wneud cymeradwyaeth gan Dŵr Cymru Welsh Water yn ofynnol cyn cyflwyno'r dystysgrif cydymffuriad. Fel y cyfryw, ni ystyrir y bydd y cynllun yn arwain at effeithiau sylweddol tebygol. Cyfeirir at yr Adroddiad Seilwaith sy'n ategu'r Gorchymyn Datblygu Lleol.

## 5.2 EFFEITHIAU CRONNOL TEBYGOL

5.2.1 O adolygiad o borth cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin, nodwyd ei bod yn bosibl y gallai'r prosiectau yn Nhabl 5-2 gael effeithiau mewn cyfuniad.

Tabl 5-2 Datblygiad perthnasol yr ymrwymwyd iddo

CYFEIRNOD	DISGRIFIAD	CYFEIRIAD	DYDDIAD DILYSU	PENDERFYNIAD
S/32778	Newid defnydd o swyddfeydd i ddwy fflat hunangynhwysol	15 STRYD JOHN	02/10/2015	Caniatawyd ar 05/07/2016
S/32779	Newid defnydd o swyddfeydd i ddwy fflat hunangynhwysol	11 STRYD JOHN	02/10/2015	Caniatawyd ar 05/07/2016
S/31010	Addasiad arfaethedig o swyddfeydd llawr cyntaf ac ail lawr presennol i 5 fflat hunangynhwysol a 3 fflat stiwdio	13-15 STRYD COWELL	13/10/2014	Caniatawyd ar 10/11/2014
S/33199	Cadw cyfleuster manwerthu presennol ar y llawr daear, dymchwel estyniadau yn y cefn a chreu mynediad newydd at fflatiau llawr cyntaf ac ail lawr newydd	10 - 12 STRYD STEPNEY	14/01/2016	Caniatawyd ar 24/02/2016
S/32566	Newid defnydd arfaethedig o swyddfeydd i fflatiau	16 STRYD Y PARC	27/06/2016	Caniatawyd ar 18/01/2016

5.2.2 Cynhaliwyd gwerthusiad o dderbynyddion cyffredin posibl ac ni nodwyd unrhyw dderbynyddion cyffredin ar gyfer yr effeithiau canlynol:

- **Colled neu darfu ar asedau archeolegol wedi eu claddu posibl.** Mae asedau archeolegol a allai gael eu heffeithio gan y Cynllun Arfaethedig wedi eu cyfyngu i'r Safle ac nid ydynt yn rhannu rhychwant cyffredin â'r datblygiad yr ymrwymwyd iddo.
- **Digwyddiad llifogydd yn ystod gwaith adeiladu.** Mae'r effaith hon wedi ei chyfyngu i weithwyr adeiladu ac ni ragwelir y bydd unrhyw orgyffwrdd â staff adeiladu ar y datblygiadau eraill yr ymrwymwyd iddynt.



- **Cynnydd i nifer yr adeiladau sydd mewn perygl o lifogydd.** Mae hon yn effaith benodol i adeiladau.
- **Newidiadau i gymeriad y treflun presennol ac amwynder gweledol.** Ni ystyrir bod y Datblygiad Arfaethedig yn arwain at effaith niweidiol ar gymeriad y treflun.

5.2.3 Ystyrir bod y dystiolaeth a amlinellir uchod yn foddhaol i ddod i'r casgliad nad oes angen cynnal unrhyw asesiad mewn cyfuniad pellach ar yr effeithiau hyn.

5.2.4 Mae gwerthusiad o dderbynyddion cyffredin posibl wedi dod i'r casgliad bod derbynyddion cyffredin ar gyfer yr effeithiau canlynol:

- **Effaith anuniongyrchol ar ACA/AGA/Ramsar cynnydd i garthffosiaeth o ganlyniad i'r newid defnydd i breswyl.** Mae'r mesurau rheoli angenrheidiol ar waith i atal dirywiad i ansawdd dŵr a allai effeithio ar uniondeb yr ACA/AGA/Ramsar ac felly nid oes angen unrhyw asesiad pellach;
- **Tarfu yn gysylltiedig â sŵn, dirgryniad, llwch, deunydd gronynnol a llygredd golau, a gynhyrchir gan weithgareddau ar-safle dros dro a thraffig dymchwel / adeiladu.** Mae'n bosibl y gallai gwaith gychwyn ar yr un pryd ar draws y Datblygiad Arfaethedig a datblygiadau eraill. Tybir y byddai'r cynlluniau yn gweithredu mesurau lliniaru tebyg i gyfyngu ar effeithiau a tharfu dros dro ar dderbynyddion preswyl cyfagos. Er y nodir effaith mewn cyfuniad bosibl, mae hon yn annhebygol o fod yn ychwanegol i'r effeithiau ar lefel prosiect ac ni ystyrir hyn ymhellach yn yr asesiad;
- **Cynnydd i grynodiadau llygryddion (NO<sub>x</sub>, NO<sub>2</sub> a PM<sub>10</sub>) o allyriadau mygdarth yn deillio o draffig dymchwel / adeiladu a Newidiadau i grynodiadau llygryddion (NO<sub>x</sub>, NO<sub>2</sub> a PM<sub>10</sub>) o allyriadau mygdarth yn deillio o draffig a gynhyrchir gan y Datblygiad Arfaethedig.** Bydd y rhwydwaith ffyrdd yn gallu ymdopi â lefel y traffig ychwanegol ac efallai na fydd pob cynllun ar wahân yn arwain at effeithiau sylweddol, ac eto mewn cyfuniad mae'n bosibl y bydd y traffig a fydd yn deillio yn arwain at effaith sylweddol debygol. Tybir y byddai Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnwys amodau a gofynion tebyg i'r rheini a nodwyd yn yr hysbysiadau penderfyniad caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiadau yr ymrwymwyd iddynt, er mwyn sicrhau bod y cynnydd tebygol i lif traffig trwy Ganol Tref Llanelli cyn lleied â phosibl. Mae lliniaru tybiedig o'r fath ar draws y Gorchymyn Datblygu Lleol a datblygiadau yr ymrwymwyd iddynt yn annhebygol o arwain at effeithiau amgylcheddol sylweddol.
- **Newidiadau i gymeriad presennol y treflun ac amwynder gweledol.** Mae buddsoddiad ar draws canol y dref yn debygol o wella treflun ac amwynder gweledol Llanelli. Bydd effeithiau adeiladu yn gymharol fach yn wedi eu gwahanu rhwng gwahanol strydoedd lle mae gwaith yn cael ei wneud;
- **Cynhyrchu gwastraff o weithgareddau dymchwel a/neu adeiladu a galw cynyddol am gyfleusterau trin / gwaredu gwastraff lleol.** O ystyried rhychwant daearyddol cyffredin y Cynllun Arfaethedig a datblygiadau yr ymrwymwyd iddynt, mae'n debygol y bydd gwastraff sy'n deillio ohonynt yn cael ei anfon i gyfleusterau trin / gwaredu gwastraff tebyg. Er bod potensial o effaith mewn cyfuniad, tybir y bydd pob cynllun yn gweithredu Cynllun Rheoli Gwastraff i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o wastraff yn deillio gan arwain at bwysau cynyddol ar gyfleusterau trin / gwaredu gwastraff lleol a rennir. Fel y cyfryw, ni fyddai'r effeithiau mewn cyfuniad posibl ddim mwy na'r rheini a ystyriwyd ar lefel y prosiect;
- **Cynhyrchu gwastraff o weithgareddau dymchwel a/neu adeiladu a galw cynyddol am gyfleusterau trin / gwaredu gwastraff lleol.** O ystyried rhychwant daearyddol cyffredin y Cynllun Arfaethedig a datblygiadau yr ymrwymwyd iddynt, mae'n debygol y bydd gwastraff sy'n deillio ohonynt yn cael ei anfon i gyfleusterau trin / gwaredu gwastraff tebyg. Er bod potensial o effaith mewn cyfuniad, tybir y bydd gwasanaethau casglu gwastraff bwrdeistrefol

lleol yn casglu'r gwastraff ychwanegol. Fel y cyfryw, ni fyddai'r effeithiau mewn cyfuniad posibl ddim mwy na'r rheini a ystyriwyd ar lefel y prosiect; a

- **Chynnydd i lifoedd dŵr budr, capasiti cysylltiedig carthffosydd a galw am ddŵr yfed o ganlyniad i'r Datblygiad Arfaethedig.** O ystyried rychwant daearyddol cyffredin y Cynllun Arfaethedig a datblygiadau yr ymrwymwyd iddynt, mae'n debygol y bydd rhwydwaith llif dŵr budr, carthffosiaeth a dŵr yfed cyffredin. Serch hynny, byddai'n ofynnol i bob cynllun ymgysylltu'n briodol â Chyngor Sir Caerfyrddin a Dŵr Cymru Welsh Water er mwyn penderfynu ar gapasiti ar draws pob rhwydwaith a phenderfynu ar gyfraniadau angenrheidiol at waith uwchraddio. Fel y cyfryw, ni fyddai'r effeithiau mewn cyfuniad posibl ddim mwy na'r rheini a ystyriwyd ar lefel y prosiect.

# 6

## CRYNODEB

- 6.1.1 Mae WSP wedi paratoi'r Adroddiad Sgrinio Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol hwn o dan Reoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol 2017 i gefnogi cais i adran gynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin am farn sgrinio Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Mae'r adroddiad yn darparu'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i Gyngor Sir Caerfyrddin gynnig barn sgrinio yn unol ag Atodlen 2 a 3 Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol 2017.
- 6.1.2 Mae'r wybodaeth a ddarperir yn Adran 5 yr adroddiad hwn yn cynnig asesiad o effeithiau amgylcheddol tebygol, gan gynnwys y rheini a allai ddeillio o ganlyniad i effeithiau cyfunol ar dderbynyddion a thrwy gyfuniad o ddatblygiadau eraill.
- 6.1.3 Nid yw'r Safle wedi ei leoli mewn ardal sensitif, er bod derbynyddion sensitif o fewn ffin y Gorchymyn Datblygu Lleol ac ACA/AGA/Ramsar o fewn 2 gilomedr.
- 6.1.4 Mae'r Gorchymyn Datblygu Lleol yn caniatáu newid defnydd; nid yw'n caniatáu newid i strwythur, maint neu ymddangosiad allanol adeilad. Mae'r Astudiaeth Seilwaith yn cynnig mesurau i gael eu rhoi ar waith i leihau'r posibilrwydd o lif dŵr budr cynyddol i'r rhwydwaith carthffosiaeth, trwy Strategaeth Ddraenio arfaethedig yn nodedig.
- 6.1.5 Er mwyn sicrhau bod effaith gweithredu'r Gorchymyn Datblygu ar dderbynyddion lleol cyn lleied â phosibl, cynigir y dylai fod yn ofynnol i bob datblygwr weithredu Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu pan fo'n briodol ac yn angenrheidiol.

**ATODIAD A**

**CYNLLUN LLEOLIAD Y SAFLE**